



16 Ebrill 2019

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH EI MAWRHYDI:

YMATEB YR HEDDLU I GAM-DRIN DOMESTIG: Adroddiad Diweddarau

Mae adroddiad diweddarau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar gam-drin domestig yn nodi nifer o bwyntiau cadarnhaol yn ogystal ag ambell i faes sy'n peri pryder o hyd yn y maes hwn. Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r galw cynyddol ar blismona o ran cam-drin domestig. Mae'n hynod gadarnhaol bod mwy a mwy o bobl yn rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o gam-drin domestig, gan gynnwys i Heddlu De Cymru, ac rwy'n gwneud popeth a allaf i annog pobl i wneud hynny. Fodd bynnag, rwyf yr un mor awyddus i sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael yn gallu ymdopi â'r galw a bod swyddogion a staff yr heddlu mewn sefyllfa dda i ymateb i ddioddefwyr yn y ffyrdd mwyaf priodol ac ymchwilio i achosion yn drylwyr.

Mae'r adroddiad yn nodi pwysigrwydd yr heddlu'n gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu'r ymateb gorau posibl i ddioddefwyr. Rwy'n falch iawn ein bod wedi gwneud cynnydd rhagorol yn hyn o beth yn Ne Cymru. Rydym yn ffodus i weithio mewn ardal lle mae ein hasiantaethau partner yn awyddus iawn i weithio gyda'i gilydd a gyda'r heddlu er budd dioddefwyr. Byddwch yn ymwybodol o lwyddiant ein Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) presennol a'r Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) sy'n gweithredu yn ein hardal. Rydym yn gweithio'n dda iawn gyda'r sector gwirfoddol yn Ne Cymru ac rwyf wedi penodi Arweinydd Strategol ar gyfer bod yn Agored i Niwed yn fy nhîm fy hun sy'n gweithio i ddod ag asiantaethau partner a'r heddlu ynghyd i gyflawni'r canlyniadau gorau ynghylch cam-drin domestig a meysydd eraill o fod yn agored i niwed. Mae'n amhosibl i'r heddlu fynd i'r afael â'r flaenoriaeth enfawr o gam-drin domestig ar eu pen eu hunain ac rwy'n cymryd y cyfrifoldeb fel Comisiynydd i bwysleisio hyn i bartneriaid allanol.

Nodaf fod yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i'r heddlu wella dealltwriaeth o ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli ac rwy'n cytuno mai hon yw'r flaenoriaeth bresennol. Yn ddiweddar mae mwy na 1,000 o swyddogion yn Heddlu De Cymru wedi cael eu hyfforddi i nodi arwyddion o ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli a chynhaliwyd hyn ar y

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru



cyd â Chymorth i Ferched. Mae staff ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus (ystafell reoli) hefyd wedi'u paratoi a'u hyfforddi'n dda i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig ac ymateb yn y ffordd fwyaf priodol ond rwy'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau nad yw hyn yn dod i ben.

Rwy'n cytuno â sylw'r adroddiad bod ceisio adborth gan ddiodefwyr cam-drin domestig yn bwysig ac mae'n bleser gennyf nodi fod aelodau o fy nhîm i yn cwrdd yn rheolaidd â goroeswyr achosion o gam-drin er mwyn llywio dull gweithredu Heddlu De Cymru o ran mynd i'r afael â diodefwyr yn y dyfodol, a'u cefnogi.

Mae'r Prif Gwnstabl yn rhannu fy marn ar yr adroddiad, fel y dengys ei sylw isod:

Diogelu'r rhai hynny sy'n agored i niwed yw prif flaenoriaeth Heddlu De Cymru. Mae cam-drin domestig yn gadael staen ar gymdeithas ac mae Heddlu De Cymru yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid statudol a'n hasiantaethau gwirfoddol er mwyn ceisio atal pob ffurf o gam-drin domestig a chefnogi'r rhai hynny y mae hyn yn anffodus yn effeithio arnynt.

Rydym yn croesawu'r arolygiad thematig hwn gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n cydnabod, yn gywir, y pwysigrwydd y mae'r heddlu'n ei roi ar ddelio ag achosion o gam-drin domestig. Mae'n galonogol bod gan ddiodefwyr a goroeswyr fwy o hyder i roi gwybod i'r heddlu am achosion a dangosodd arolwg diweddar a gynhaliwyd â diodefwyr cam-drin domestig bod 90% yn fodlon ar y gwasanaethau a gawsant gan Heddlu De Cymru a bod 93% yn fodlon ar y ffordd y cawsant eu trin.

Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn llaesu dwylo, ac rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud, ac y byddwn yn ei wneud, bob amser. Byddwn yn parhau i ddelio ag achosion o gham-drin domestig fel blaenoriaeth bwysig.

Yn ddiweddarach yn 2019, bydd fy nhîm yn cynnal 'adolygiad at wraidd y mater' o faterion sy'n ymwneud â phobl sy'n agored i niwed a nodwyd yn fy Nghynllun yr Heddlu a Throseddau, a bydd hyn yn cynnwys cam-drin domestig. Byddaf yn sicrhau bod y materion a godwyd yn yr adroddiad yn cael eu cynnwys fel rhan o'n hadolygiad fel y gallaf nodi cynnydd a meysydd sy'n peri pryder yn yr heddlu os bydd angen.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English